# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/02/2018 Ganolfan Edern am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sharon Williams | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Rhys Tudur | Andrew Owen |
| Gwynfor Jones | Bleddyn Evans | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Arfon Hughes, Guto Williams, Bethan Williams, Sian Hughes, Janice Evans a Glenda Rice.
   Rhys Tudur wedi cymryd y gadair.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio ac yn aelod o Bwyllgor Tafarn yr Heliwr
   Bleddyn Williams – Aeolod a bwyllgor Tafarn yr Heliwr
   Rhian Hughes-Jones – Aelod o Bwyllgor Tafarn yr Heliwr

3. **Cofnodion 13/01/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Materion Brys**
   Dim materion brys

5. **Bws Arfordir Llŷn**
   Diolch i Meinir Jones am fynychu i roi cyflwyniad ynglŷn â gwasanaethu Bws Arfordir Llŷn / O Ddrws I Ddrws a'r manteision i'r gymuned.
   Diolch am y gwahoddiad; Maent wedi gwneud cais I AHNE am arian ar gyfer mis Mai – Medi ar gyfer un bws yn unig.
   Mae gwasanaeth O Ddrws I Ddrws ar gael bob amser, fel elusen mae yn agored i nifer o grantiau. Mae'n darparu gwasanaeth o ddrws Tŷ i'r siopa ac ysbyty. Mae'r bws yn mynd I Ysbyty Gwynedd tair gwaith yr wythnos ac yn codi £1 am y siwrne (un ffordd).
   Mae Bws Arfordir Llyn angen ei ariannu mewn ffordd wahanol gan nad yw'n elusen. Fel mae'n sefyll ar y funud nid oes arian i redeg y bws dim ond i weithgareddau.
   Mae'r bws yma hefyd yn darparu gwasanaeth cymunedol angenrheidiol fel gwasanaeth 'Be Wnawn Ni Heddiw?' lle mae'r bws yn mynd a phobl allan am y diwrnod i nifer o lefydd gwahanol fel Neuadd y Dref i weld sioe neu ffilm.
   Mae angen cyfraniadau i gadw'r gwasanaeth; un bws am flwyddyn i bontio tan mae grantiau ar gael; Prifysgol Cymru Bangor a Phrifysgol Cork yn edrych ar astudiaeth ar sut i gyrraedd ardaloedd gwledig, dda at iechyd ac yn linc i wasanaethau bws a thrên yn ogystal â hybu twristiaeth.
   Costau un bws yw £22,000 gyda chost dau fws yn £50,000.
   Maent yn gobeithio cael mwy o ddefnyddwyr eleni gyda'r bws llynedd wedi cymryd £3,300 gyda phob siwrne yn £1. Mae'r costau yn debygol o fynd mynnu I £2 am siwrne eleni.
   Maent hefyd yn dal i drio am bob grant gyda rhai yn seiliedig ar y nifer o gilomedrau sydd wedi ei darfeilio, ac eraill i fodur trydan.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Maent yn gobeithio cychwyn y gwasanaeth at Basg.
Mae Meinir wedi gyrru cais am gyfraniad at holl gynghorau cymuned a thref yn Llyn. Eleni mae nifer o feysydd carafanau wedi gwneud cyfraniad gan fod y gwasanaeth yn amlwg o ddefnydd mawr iddynt.

**6. Traethau**

Diweddariad - Gruff Williams
Mae Gruff wedi bod mewn cysylltiad hefo Tristan o'r Ymddiriedolaeth yn dilyn derbyn llythyr gan Andy Godbar yn nodi buasai eleni yn iawn. Nid yw hyn yn dderbynion gan nad dim hyn roeddem wedi ei drafod yn y cyfarfod diweddar hefo Cyngor Gwynedd. Rydym yn gofyn am ymrwymiad hir dymor i'r dyfodol.
Mae yn beryg mae dim ond traeth Nefyn bydd yn cael ei ariannu gan Gyngor Gwynedd sydd yn amlwg yn bryderus iawn.
Mae Tristan yn awgrymu bod y swm yn anferthol dros yr 20 mlynedd (£100,000). Maent yn ystyried rhoi giât ar draws y traeth yw rheoli, fel y trafodwyd a gytunwyd yn y gorffennol nid yw hyn yn mynd i weithio yn yr achos yma. Mae'n risg uchel iawn at yr haf mae'r traeth angen ei rheoli yn iawn. Heb sôn am hawliau tramwy sydd yn bodoli.
Mae angen cysylltu unwaith eto hefo Cyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth.

Llythyr Perry Shard – Gwirfoddoli ar y traethau
Mae Gruff Williams wedi edrych i mewn i gyflwr y llwybr gan nodi mae safle hen lanfa yn mynd am y jeti oedd. Mae'n ymddangos bod yna ddifrod wedi digwydd ar dir preifat. Ni ellir gwneud dim am yr hyn sydd yn digwydd ar dir preifat ond yn edrych i mewn i roi draen ar y llwybr i drio gwella'r safle. Disgwyl am brisiau i'r gwaith.
Cais wedi ei wneud eisoes i hel ysbwriel ac ati, oes bres ar gael i hyn efallai?
Andrew Owen am drefnu gweithgareddau hefo'r ieuenctid.

Rhian Hughes-Jones – Meinciau
Mae'r sawl sydd yn gwneud cais i osod mainc yn awyddus i dderbyn cymorth yw gosod a'r safleoedd. Cytunwyd bydd Gruff Williams yn rhoi cymorth i'r rhai sydd yn gosod mainc.

**7. Llwybrau**

Diweddariad; Gruffydd Williams
Llwybr Llwynffynnon - Roedd y giât flaenorol wedi ei ddwyn felly roedd y perchennog yn bryderus iawn ynglŷn â gadael y giât heb glo arno, mae sefyllfa eisoes wedi'i ddatrys.
Llwybr Ffynnon John Morgan – Dim gwariant wedi ei wneud yma, trio newid safle'r llwybr gyda gwaith yn mynd yn ei flaen. Nodwyd bod ceffylau wedi bod yn ffagio yno.
Tai Folt – Gwelliannau wedi eu cwblhau , dwr wedi ei droi i'r cae bellach.
Gors Geirch – Gwaith yn mynd yn ei flaen.

**8. Y Ddol**

Diweddariad – Rhian Hughes-Jones
Wedi gallu gwneud dechrau da i waith cysoni gwybodaeth rhandiroedd yn dilyn ffeindio mapiau hanesyddol a derbyn gwybodaeth gan Gruff Williams. Gwaith dal i fynd yn ei flaen.
Wedi gyrru llythyr i 'Waterco Consultants' yn nodi safleoedd ffosydd a choed yw gwarchod.

**9. Cyngor Tref / ymddiriedolaeth Tref Nefyn**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones a Gruff Williams

Gruff yn rhoi eglurhad byr i'r rhai nad oedd yn y cyfarfod blaenorol; Nodwyd yn hanesyddol fod aelod o'r Cyngor Tref yn eistedd ar fwrdd yr Ymddiriedolaeth Drefol yn ogystal â thenantiaid.

Wedi derbyn ymateb gan Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn yn nodi fod y pwyllgor yn llawn ac yn gofyn am gopi o'r ddogfennaeth hanesyddol. Trefnu I yrru copïau o lythyrau ymlaen i'r Ymddiriedolaeth Drefol.

**10. Safle Ail Gylchu, Ffordd Dewi Sant**

Diweddariad - Rhian Hughes-Jones

Yn dilyn yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Steffan Jones yn cynnig nifer o awgrymiadau sydd ddim wedi gweithio yn y gorffennol mae Gruff Williams wedi ymateb yw reolwr Peter Simpson yn nodi bod y pwyllgor eisoes wedi gwneud penderfyniad i waredu'r biniau ailgylchu o'r safle.

Rhian i ddilyn fynnu hyn gan yrru llythyr yn egluro penderfyniad y pwyllgor eto.

**11. Llyfrgell**

Diweddariad - Sharon Williams

Copi drafft o'r brydles wedi ei rhannu hefo'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Mae'r maes parcio wedi ei ddileu o'r cynllun ac felly yn atal cyfrifoldeb i'r Cyngor Tref. Mae cymal newydd yn nodi mae'r hawl yw defnyddio ar risg eich hunain yn parhau.

£5000 yw'r brydles am y flwyddyn.

Mae Cyngor Gwynedd angen bod yn gyfrifol am y caledwedd sydd o fewn y llyfrgell, wedi nodi hyn fel newid ar y brydles.

Mae'r gwaith asbestos wedi ei gwblhau.

Mae ffenest yn y to yn gollwng dŵr, sydd wedi achosi i'r pren bydru a llanast ar y wal. Bydd angen gwaith i drwsio hyn.

Nodwyd bod y tir glaswellt a'r goeden wedi ei gynnwys yn y brydles; Braf cael y goeden i blant gael ei ddefnyddio i eistedd a darllen.

Angen torri chwyn o amgylch y ddihangfa tan.

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau byddent yn gwneud gwaith i'r dyfodol.

Sharon am fynd yn ôl at Gyngor Gwynedd hefo'r sylwadau a chynnig ein bod yn ei dderbyn.

Andrew Owen am wneud gwaith paentio a chwynnu hefo'r ieuenctid.

**12. Cyfrifon y Cyngor**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones.

Wedi gyrru PREASEPT 2018-19 ymlaen i Cyngor Gwynedd.

**13. Mynwentydd**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones

Wedi edrych i mewn i gael biniau olwyn i'r mynwentydd hefo Cyngor Gwynedd ond nid yw hyn yn bosib. Bydd rhaid pwrcasu biniau. Rhian am edrych i mewn i hyn eto gan gofio bod eisiau gwagio'r biniau. Efallai bydd angen ail edrych ar hyn hefyd i'r dyfodol.

**14. Rheolau'r Cyngor**

Is-bwyllgor rheoliadau wedi cyfarfod 16/01/2018 i drafod y rheoliadau i gyd;

Edrych ar;

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

- Polisi Iaith
- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Asesiad Risg

Gweler Atodiad 1

Copïau wedi ei gyrru allan i'r holl aelodau yn dilyn hyn mae'r pwyllgor yn hapus yw mabwysiadu gan nodi bydd os ydw i'n angen ychwanegu i'r asesiad risg.

**15. Clirio Dofgfennau Hanesyddol**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones
Yn dilyn diwrnod llwyddiannus iawn yn Siop Siarad hoffwn ddiolch yn fawr i bawb wnaeth rhoi eu hamser i helpu.
Bydd eisiau trefnu diwrnod arall cyn gynted a bod modd.
Angen edrych i mewn i waredu'r ysbwriel, tybed buasai Antur Waunfawr yn ei dol. RHJ i ymchwilio.

**16. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor**

Yn dilyn derbyn gwahoddiad gan Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd i wneud cais i fod yn aelod o fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor nodwyd bod Gruff Williams yn aelod o'r Fforwm yn ei swydd fel Cynghorydd Gwynedd ac yn hapus I adrodd yn ol I'r Cyngor Tref ar unrhyw faterion o bwys.

**17. Nifer seddi Cyngor Tref Nefyn**

Gruff Williams; Nodwyd bod toriad seddi Cyngor Tref Nefyn ddim yn union gywir gyda nifer poblogaeth.
Nefyn – 7
Morfa Nefyn – 5
Edern – 3
Nodwyd dylai bod 8 aelod yn Nefyn. Bydd angen edrych i mewn i hyn yn iawn. Gofyn I Gyngor Gwynedd am ffigyrau poblogaeth i'r ardaloedd ac os oes modd neud newidiadau?

**18. Tafarn yr Heliwr**

Gwybodaeth am Bwyllgor Tafarn yr Heliwr hwb cymdeithasol Nefyn gan Bleddyn Evans a Rhian Hughes-Jones;
Bwriad Pwyllgor Tafarn yr Heliwr yw i ail agor y tafarndy fel hwb cymunedol. Yn darparu lle i bobl leol ac i'r gymuned ehangach yn ogystal â thwristiaeth.
Y gobaith yw darparu llety ar y llawr cyntaf ac ail i gerddwyr a beicwyr yn bennaf. Gan gynnig bwyd syml yn y tafarn ac wrth gwrs tafarn yn ystod y nos.
Mae'r Pwyllgor yn fwriadau hel cyfranddaliadau yn ogystal â grantiau a chyfraniadau.
Ar hyn o bryd mae'n anodd iawn i gychwyn gan nad yw'r gwaith papur angenrheidiol i geisio am grantiau wedi ei wneud; felly yn gofyn am gyfraniadau i wneud arolwg strwythurol ac arolwg gwerthu o'r safle er mwyn bwrw ymlaen a'r fenter.
Andrew Owen yn cynnig cyfraniad o £500 a Gwynfor Jones yn eilio; wedi ei gario yn unfrydol.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/02/2018 Ganolfan Edern am 7yh

**Ceisiadau Cynllunio**

**C17/1233/42/LL**
Tynnu cwt pren presennol ac adeiladu cwt pren newydd ynghyd a gosod tanc septic.
Maes parcio Ymdduriedolaeth Genedlaethol, Porthdinllaen, Nefyn.
**Dim gwrthwynebiad.**

**C18/0013/42/LL**
Ail leoli ffenestr to.
Ty Isaf Stryd y Ffynnon, Nefyn.
**Dim gwrthwynebiad.**

**C18/0023/42/LL**
Dymchwel uned storio presennol ac adeiladu 2 uned gwyliau (cais diwygiedig)
Tynpwll Cottage, Lon Ty'n Pwll, Nefyn.
**Gwrthwynebu – Gôr ddatblygiad o'r safle; Ty yn cefngwlad. Perygl i gerddwyr ar ffordd gerdded boblogaidd iawn.**

**C18/0066/42/LL**
Adeiladu adeilad gardd yn lle strwythur blaenorol nad oedd yn saff
Glanafon, Lon Goch, Edern
**Gwrthwynebu – Gôr ddatblygiad o'r safle; yn weladwy o'r ffordd i mewn i'r pentref. Ty yn cefngwlad**

**Ceisiadau am gyfraniad**

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Grŵp mynediad Dwyfor**
3. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**
4. **Theatr Bara Caws – Gymorthdal I flwyddyn 2017-18**
5. **Eisteddfod yr Urdd – Cyfraniad tuag at Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018**
6. **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cefnogi Staff, 150 Hamper I staff a fydd yn gweithio dros y nadolig i ddiolch a Gwobrau i staff.**
7. **Eisteddfod Gerddorol Ryngwadol Llangollen**
8. **Dawns i bawb – Dawns mewn ysgolion, cartrefi henoed a Llyfrgelloedd.**
9. **Clwb Nofio PBP – Porthmadog Blaenau Ffestiniog a Pwllheli.**
10. **O Ddrws i Ddrws – Bws Arfordir Llyn.**
11. **Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a`r Fro 2018**
12. **Cylch Meithrin Nefyn – Cyfraniad at adnoddau.**
13. **Tafarn yr Heliwr, Hwb cymunedol Nefyn – Cyfraniad tuag at gostau cychwynnol i'r fenter.**

Bydd Ceisiadau am gyfraniad yn cael ei deli gyda diwedd y flwyddyn.
Rhai wedi amlygu mewn coch yn fater brys ac wedi eu hystyried a'u chymeradwyo

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**<u>Gohebiaeth</u>**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Ionawr 2018.
2. **SLCC** - Bwletin Ionawr 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Ionawr 2018
4. **Local Council Update** – Ionawr 2018
5. **Brigend Coalition of Disabled People –** Arwyddo deiseb i gael graddfa 0-5 i eiddo yn ddibynnol ar anawsterau i'r anabl.
6. **Cyngor Iechyd Cymuned** - Amseroedd Aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys – Corff Gwarchod Iechyd yn ceisio adborth gan gleifion
7. **Y Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru** - Adran 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Strategaethau lleol ar gyfer darparu toiledau – Dogfen Ymgynghori ar Ganllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol
8. **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru -** Chofrestru Meddygon Teulu yng Nghymru
9. **Dave Morgan – Arolwg Tai yn Nefyn 2014**
10. **Un Llais Cymru** - Adolygiad o'r sector cynghorau lleol
11. **Llywodraeth Cymru** - Cynigion i fynd i'r afael â throseddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff
12. **Llywodraeth Cymru -** Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
13. **Un Llais Cymru -** Cynllun Caru Gwenyn
14. **Clwb hoci Pwllheli –** Llythyr diolch am gyfraniad.
15. **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol -** Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft
16. **Zurich -** Local Community Advisory Service (LCAS) - Gwahoddiad i Seminar.
17. **Llywodraeth Cymru -** Cafarfod Adolygu'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref, Caernarfon, Mawrth 6, 2018 at 12:00 – 15:00 y.h
18. **Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn -** Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus
19. **Cyngor Gwynedd - g**wella mynediad at gyfrifiaduron a'r we
20. **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Arolwg Datganiadau Ardal
21. **Archwilydd Cyffredinol Cymru -** Yn ceisio adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar god diwygiedig i archwilwyr
22. **Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU -** cytuno bod y trethiCymreig newydd yn barod i'w gweithredu
23. **Comisiynydd y gymraeg** - Cylchlythyr Hybu'r Gymraeg
24. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru -** Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol.
25. **Adroddiad Grwp Cyfeiriol Budd Ddeiliaid Betsi Cadwaladr**
26. **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd -** Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol
27. **CLWB MODURO HARLECH A'R CYLCH CYF. -** Rali Goffa Merfyn Hughes Rali Llyn Mawrth 17/18 March 2018
28. **Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Nefyn –** Llythyr diolch am cyfraniad
29. **David Roberts Clerc Llandwrog -** Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/02/2018 Ganolfan Edern am 7yh

**Taliadau wedi eu gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc -** Ionawr £726.93 | **£726.93** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£13.76** |
| **BACSTAL –** Gwasanaeth chwarter 3 | **£105.60** |
| **Clif Hughes** – 7ed taliad contract £1060.00 | **£1060.00** |
| **Ashley Hughes** – Nwyddau gweinyddol | |
| Anfoneb 22037 - £162.38 | |
| Anfoneb 22170 - £108.58 | **£270.96** |
| **Ysgol Morfa Nefyn -** Diffibriliwr | |
| Redipack Quick Combo un par £61.19 | |
| Charge-Pak, Pediatric electrodes £182.40 | **£243.59** |
| **John Roberts –** Awdit mewnol | **£125.00** |
| **J G Jones –** Mynwentydd | |
| 07/01/2018 - £70.00 | |
| 07/01/2018 - £400.00 | **£470.00** |
| **Atkin Groundworks** – | |
| Gosod coed nadolig £1260.00 | |
| Gwaith ychwanegol £210.00 | **£1470.00** |
| **John Lacey** – Gwaith ar gliniadur | **£45.00** |
| **Mr D M Parry** – 5ed taliad mynwent | |
| Nefyn - £833.00 | |
| Morfa Nefyn – 166.00 | **£999.00** |
| **G Williams** – Gwaith Llwybrau **(BIG)** | |
| Anfoneb 212 – £2000.00 | |
| Arfoneb 206 - £2994.00 | |
| Anfoneb 207 - £1260.00 | |
| Anfoneb 208 - £330.00 | **£6584.00** |
| **Cyfraniad** – O Ddrws i Ddrws | **£1500.00** |
| **Cyfraniad** – Tafarn yr Heliwr | **£500.00** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| | **£0.00** |

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

## ATODIAD 1

**COFNODION Is-bwyllgor Rheoliadau,**
**Nos Fawrth 16/01/2011 Siop Siarad am 7yh**

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (CAD) | Gruff Williams | Catrin Roberts | Rhys Tudur | Rhian Hughes-Jones (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau**
   Janice Evans

2. **Cyflwyniad**
   Diweddariad gan Arfon Hughes ar y sefyllfa; Mae Rheoliadau Cyngor Tref Nefyn angen eu diweddaru. Mae'r Rheoliadau presennol yn lle da i ddechrau.
   Mae angen edrych ar gynghorau Tref eraill am enghreifftiau da o Reoliadau cadarn a cynhwysfawr.

3. **Polisi Iaith**
   Mae angen polisi iaith llawer mwy cadarn; Gruff Williams wedi bod yn edrych ar bolisïau cynghorau tref eraill sydd nodi nifer o bwyntiau da. Defnyddio'r rhain i ffurfio'r polisi. Gweler atodol.

4. **Rheolau Sefydlog**
   Mae Rhian Hughes-Jones, Rhys Tudur ac Arfon Hughes wedi bod yn edrych ar rain ac eto wedi defnyddio agweddau da o reolau sefydlog presennol ac enghreifftiau gan gynghorau tref eraill i lunio'r Rheolau Sefydlog newydd. Gweler atodol.

5. **Rheolau Ariannol**
   Rhian Hughes-Jones ac Arfon Hughes i wyro'r rheoliadau cyfredol gan edrych ar reolau ariannol cynghorau tref eraill. Mae angen rheolau ariannol llawer mwy cynhwysfawr na sydd gan y cyngor Tref yn unol ag arweiniad gan y BDO (awdit allanol). Gweler atodol.

6. **Asesiad Risg**
   Rhian Hughes-Jones i edrych ar asesiadau cyfredol er eu gwyro gan neud ychwanegiadau pan eu hangen a'i gyrru ymlaen i Arfon Hughes yw gwyro. Gweler atodiad.

7. **Cloi**
   Yn dilyn yr is-bwyllgor cytunwyd i yrru drafftiau ymlaen i'r aelodau er eu gwirio.


Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651